

Cofnodion y Cyngor - cyfarfod 164

Dyddiad y cyfarfod	Dydd Iau/Gwener 15/16 Mawrth 2018
Lleoliad	Cyngor Celfyddydau Cymru, Caerdydd
Yn bresennol	Phil George (PG) Cadeirydd, Andy Eagle (AE), Rachel O'Riordan (ROR), Iwan Bala (IB), Melanie Hawthorne (MH) (16 Mawrth yn unig), Andrew Miller (AM), Dafydd Rhys (DRh), Richie Turner (RT), Alan Watkin (AW), Kate Eden (KE) a Marian Wyn Jones (MWJ)
Yno	Nick Capaldi (NC), Diane Hebb (DH), Gwyn Williams (GW), Betsan Moses (BM), Dr Kath Davies (KD) a Katy Brown (KB) – cofnodion
Ymddiheuriadau	Dr Lesley Hodgson (LH), Mike Griffiths (MG) a John Williams (JW) David Alston (DA) a Siân Tomos (ST)
Yn arsylwi	Peter Owen (PO)
Cyfieithu	Dafydd Frayling
Statws y ddogfen	I'w rhyddhau'n gyhoeddus

Cam gweithredu

1.	<p>Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau</p> <p>Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, Caerdydd.</p> <p>Llongyfarchodd PG Theatr Sherman ar gael ei henwebu ar gyfer gwobr Olivier yn y categori Cyflawniad Rhagorol o ran theatrau cysylltiedig.</p>
----	--

	<p>Cyhoeddir yr enillwyr yn Ebrill.</p> <p>Roedd y Cadeirydd yn falch o gyhoeddi bod y Gweinidog wedi cytuno i ailbenodi'r aelodau canlynol o'r Cyngor: MG; MH; MWJ; AM.</p> <p>Nododd y Cadeirydd na cheisiodd LH adnewyddu ei haelodaeth ac yn anffodus ni allai LH ddod i'r cyfarfod hwn a fyddai'n ei hun olaf. Cytunodd PG i ysgrifennu ati ar ran y Cyngor i ddiolch iddi am ei chyfraniad sylweddol at waith y Cyngor.</p> <p>Soniodd PG am absenoldeb DA. Gofynnodd y Cyngor iddo anfon ei ddymuniadau gorau iddo. Diolchwyd i'r Uwch-dîm Arwain am ei waith ar y Cynllun Corfforaethol yn absenoldeb DA.</p> <p>Bydd KB yn anfon i'r Cyngor wahoddiad i weithdy rhyngwladol, a drefnir gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru ar 19 Ebrill 2018 yng Nghaerdydd.</p> <p>Rhoes BM a KB y newyddion diweddaraf am yr ymgyrch a'r ŵyl "Cer i Greu" sydd mewn partneriaeth gyda'r BBC. Cynhelir yr ŵyl rhwng 17 a 25 Mawrth 2018.</p> <p>Dangoswyd ffilm fer am yr Ysgolion Creadigol Arweiniol gyda'r Gweinidog dros Addysg, Kirsty Williams AC, ynddi. Byddai'r ffilm yn rhan o'r cynnwys a fydd wedi'i ymgorffori yn adroddiad blynyddol Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau.</p>	<p>PG</p> <p>KB</p>
<p>2.</p>	<p>Datganiadau o fuddiant (i'w nodi)</p> <p>Gofynnodd aelodau'r Cyngor am i'w datganiadau o fuddiant gael eu cynnwys yn y cofnodion (maent ynghlwm mewn Atodiad i'r cofnodion hyn).</p> <p>Gofynnodd RT am gynnwys Pen Cymru (cyflogaeth) yn ei ddatganiadau o fuddiant.</p>	
<p>3.</p>	<p>Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 2 Chwefror 2018</p> <p>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod yn rhai cywir.</p>	
<p>4.</p>	<p>Materion sy'n codi</p> <p>Cyflawnwyd pob cam gweithredu.</p> <p><u>Cydraddoldebau</u></p>	

	<p>Nododd AM iddo fynd i gynhadledd Arweinyddiaeth Gelfydd a drefnwyd gan Gyngor Celfyddydau Lloegr ym Birmingham ar 14 Mawrth 2018. Dyma'r gynhadledd gyntaf i gadeiryddion a phrif weithredwyr y Portffolio Cenedlaethol 2018-22.</p> <p>Yno rhoddwyd pwyslais ar amrywiaeth yn flaenoriaeth gyntaf Cyngor Celfyddydau Lloegr. Nododd ein Cyngor fod cydraddoldeb yn flaenoriaeth i Gyngor Celfyddydau Cymru ac edrychodd ymlaen at ymrwymo i'r camau angenrheidiol i fod yn eiriolwr credadwy dros gydraddoldeb.</p> <p><u>Cylch cyflog</u></p> <p>Roedd NC yn falch o gyhoeddi bod yr Uwch-dîm Arwain wedi cyrraedd cytundeb â'i gydweithwyr yn yr Undeb sef cynnydd cyflog o 2% ar gyfer 2017/18 a dychwelyd at y bwrdd negodi ar gyfer 2018/19. Nododd GW y cyflwynai achos busnes terfynol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.</p>	
<p>5.1</p>	<p>Cynllunio corfforaethol Portffolio Celfyddydol Cymru: uchafbwyntiau o arolwg 2016/17</p> <p>Rhoes CB gyflwyniad am ganfyddiadau'r arolwg am 2016/17 er mwyn rhoi cyd-destun i'r trafodaethau cynllunio.</p> <p>Diolchwyd i CB am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth.</p>	
<p>5.2</p>	<p>Cynllun Corfforaethol 2018-23</p> <p>Diolchodd NC i nifer o'i gydweithwyr am eu cymorth wrth baratoi'r Cynllun Corfforaethol, yn enwedig BM a KB.</p> <p>Croesawyd y drafft o'r cynllun ond daethpwyd i'r casgliad fod angen rhagor o waith ar y targedau. Roedd angen eu rhoi mewn cyd-destun hanesyddol fel y gellid asesu uchelgais yr hyn a gynigir.</p> <p>Cytunwyd â chynnig AM i sefydlu is-grŵp o'r Cyngor i adolygu targedau'r Cynllun Corfforaethol. Bydd y grŵp yn cynnwys AM, RT, MWJ, AE/ROR a KE. Byddai KB yn chwilio am ddyddiad cyfarfod priodol.</p> <p>Gwnaeth y Cyngor y canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cymeradwyo'r dull arfaethedig o ddylunio a chyflwyno'r ddogfen 2. Trafod cynnwys y cynllun 3. Cynnig cyngor am bennu targedau'r pum mlynedd 4. Cynnig cyngor am ddewis straeon enghreifftiol i'w cynnwys yn y cynllun 5. Cytuno i sefydlu grŵp bach i ymgysylltu ac adolygu'r cynllun aildrafftiedig i gytuno arno'n derfynol yng nghyfarfod nesaf y Cyngor 	<p>KB</p>

5.3**Cyllideb 2018/19 a strategaeth ariannu**

Yn y ddogfen roedd cynigion ar gyfer y cynlluniau gwario pum mlynedd i weithredu'r cynlluniau corfforaethol a gweithredol newydd.

Nodwyd bod yr arian cymorth grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2018/19 a 2019/20 yn hysbys. Bydd incwm yn parhau i ddod o'r Loteri Genedlaethol tan ddiwedd cyfnod trwydded y Loteri bresennol (lonawr 2023). Ond ni wyddys ac ni allwn ragweld beth fydd union lefel incwm y Loteri a gawn dros y cyfnod hwnnw oherwydd y dibynna ar werthiant y tocynnau. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae incwm y Loteri wedi gostwng yn sylweddol.

Cyflwynwyd tri atodiad:

1. **Atodiad 1** a ddangosodd gynigion ariannu strategol ar sail blwyddyn ar gyfer 2018/19. Ond disgwyliem i 2019/20 fod yn debyg, gan adlewyrchu'r setliad digyfnewid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y ddwy flynedd nesaf. Cadarnheir y gyllideb derfynol ar gyfer 2018/19 yng ngoleuni profiadau 2018/19.
2. **Atodiad 2** a ddisgrifiodd gynigion y Loteri ar gyfer 2018/19-2022/23
3. **Atodiad 3** a nododd ein costau rhedeg disgwylidig ar gyfer 2018/19

Gwnaeth y Cyngor y canlynol:

1. Trafod cynnwys y ddogfen a'r atodiadau
2. Cymeradwyo'r newidiadau i atodlen ariannu'r Portffolio o ran Tŷ Cerdd. Newid ydyw i ffigwr ariannu rheolaidd y Portffolio (yn hytrach na newid untro) a newidir y ffigyrau sydd yn y ddogfen o ganlyniad i adlewyrchu'r penderfyniad
3. Cymeradwyo'r cynigion o ran ariannu strategol a Loteri yn 2018/19 (Atodiadau 1, 2)

5.4**Strategaeth gyfathrebu fewnol**

Cyflwynodd BM y ddogfen.

Gwnaeth y Cyngor y canlynol:

1. Nodi cynnwys y strategaeth a chytuno ar y cynllun gweithredu
2. Cytuno ar y dyraniad o adnoddau tuag at yr anghenion hyfforddi

Cyhoeddir y ddogfen ar y fewnrwyd, Hwb, i'r staff ei gweld.

BM

5.5	<p>Cynllun Gweithredol 2018/19</p> <p>Porthir y camau gweithredu a'r targedau sydd yn y Cynllun Gweithredol gan y gwaith ehangach ar y Cynllun Corfforaethol.</p> <p>Porthir targedau gan y gofynion sydd yn y llythyr Cylch Gwaith. Y targedau hyn fydd sail yr adroddiadau chwarterol i'r Cyngor a Llywodraeth Cymru.</p> <p>Ar ôl cytuno arno, anfonir drafft y Cynllun Gweithredol at ein cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru.</p> <p>Canmolodd MH AT ar fapio gwaith Cenedlaethau'r Dyfodol yn ôl y tasgau yn y cynlluniau gweithredol a chorfforaethol.</p> <p>Gwnaeth y Cyngor y canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Cytuno ar dargedau arfaethedig 2018/19 2. Nodi y bydd swyddogion yn cyflwyno cynllun i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo'n ffurfiol 	
6 6.1	<p>Adroddiadau pwyllgor</p> <p>Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Perygl - cyfarfod 7 Mawrth 2018</p> <p>Nodwyd yr adroddiad.</p>	
6.2	<p>Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol - cyfarfod 17 Ionawr 2018</p> <p>Nodwyd yr adroddiad.</p>	
6.3	<p>Pwyllgor Cyfalaf - cyfarfod 23 Chwefror 2018</p> <p>Nododd AW i'r cyfarfod ddigwydd yn Nhŷ Pawb, Wrecsam.</p> <p><u>Celfyddyd gyhoeddus Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful</u> Cafwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 'Croeso i Ferthyr' ond tynnwyd y cynlluniau ar gyfer y 'Carped Hud' ar ôl i'r Adran Gynllunio ddweud na fyddai'n ei gymeradwyo. Ceisir safle amgen am y carped hud.</p> <p>Nodwyd yr adroddiad.</p>	
6.4	<p>Grŵp Monitro Cydraddoldebau - cyfarfod 2 Tachwedd 2017</p> <p>Nodwyd yr adroddiad.</p>	

6.5	<p>Grŵp Monitro'r Gymraeg – cyfarfod 20 Chwefror 2018</p> <p>Prif ffocws y cyfarfod oedd y Portffolio a sut orau i fynd i'r afael â datblygu gwaith i gynulleidfaoedd Cymraeg eu hiaith.</p> <p>Nodwyd yr adroddiad.</p>	
6.6	<p>Grŵp Monitro Cenedlaethau'r Dyfodol - cyfarfod 14 Chwefror 2018</p> <p>Secondiwyd Carys Wynne Morgan, Rheolwr Portffolio, i Gomisiwn Cenedlaethau'r Dyfodol. Bydd ei swydd yn cynnwys gweithio gyda chyrrff cyhoeddus i sicrhau eu bod yn ymgorffori amcan diwylliant a'r Gymraeg sydd yn y Ddeddf ac arddangos effaith diwallu'r amcan hwn yn llawn.</p> <p>Nodwyd yr adroddiad.</p>	
7.	<p>Y Celfyddydau ac Iechyd</p> <p>Rhoes SL gyflwyniad o ganfyddiadau a chasgliadau'r ymchwil fapio</p> <p>Diolchodd PG i SL am ei gwaith caled ar lunio'r adroddiad a llongyfarchodd Aelodau y tîm hefyd.</p>	
8. 8.1	<p>Busnes y Cadeirydd Adroddiad y Cadeirydd</p> <p>Soniodd PG am ddigwyddiadau a materion diweddar.</p> <p>Nodwyd yr adroddiad.</p>	
8.2	<p>Llythyr Cylch Gwaith Llywodraeth Cymru 2018/19</p> <p>Nododd NC nad oedd y llythyr cylch gwaith yn ei ffurf derfynol ond roedd yn ei ddisgwyl yn fuan iawn.</p>	
9. 9.1	<p>Busnes y Prif Weithredwr Adroddiad y Prif Weithredwr</p> <p>Manylodd adroddiad y Prif Weithredwr ar gyfarfodydd, digwyddiadau a pherfformiadau yr oedd wedi'u mynychu'n ddiweddar.</p> <p>Cynhwysai'r adroddiad hefyd wybodaeth am staff a ymunodd â'r Cyngor a'r rhai a ymadawodd ag ef ers y cyfarfod diwethaf.</p>	

	Nodwyd yr adroddiad.
9.2	<p>Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus - craffu ar gyfrifon 2016/17</p> <p>Yn Nhachwedd 2017 gwahoddwyd swyddogion i ymddangos gerbron y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus iddo graffu ar ein Cyfrifon Blynyddol o 2016/17. Mae hyn yn rhan o archwiliad rheolaidd y Pwyllgor o berfformiad sefydliadau a ariennir yn gyhoeddus. Am y cyfnod 2016/17, ystyriodd y Pwyllgor gyfrifon Comisiynydd Cenedlaethau Dyfodol Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Chwaraeon Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru.</p> <p>Cyhoeddwyd adroddiad y Pwyllgor yn Chwefror 2018.</p> <p>Dyfyniad o'r adroddiad sy'n cwmpasu sylwadau'r Pwyllgor am Gyngor y Celfyddydau.</p> <p>Nodwyd cynnwys y ddogfen.</p>
9.3	<p>Pwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol – adolygiad o gyhoeddi a llenyddiaeth</p> <p>Nodwyd yr adroddiad.</p>
9.4	<p>Datganiad o'n polisi tâl 2017/18</p> <p>Bob blwyddyn edrydd Cyngor y Celfyddydau, dan ofynion statudol, am ein polisi tâl ar gyfer y flwyddyn. (Yn yr achos hwn, 2017/18.)</p> <p>Diben y Datganiad o Bolisi Tâl yw sefydlu'r polisi ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chyflog a chydabyddiaeth ariannol i'r staff, yn enwedig cyflog a chydabyddiaeth ariannol i'n swyddi uwch ac i'n gweithwyr ar y cyflogau isaf. Esbonia hefyd y berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol i'w weithwyr uchaf ac isaf eu cyflog.</p> <p>Mae'r datganiad yn gymwys i holl weithwyr y Cyngor.</p> <p>Nodwyd cynnwys y ddogfen.</p>
10.	Llywodraethu
10.1	Cylch Gorchwyl y pwyllgorau

	<p>Bob blwyddyn adolyga'r Cyngor gylch gorchwyl ei bwyllgorau. Rhan o adolygiad eleni yw gofyn i'r Cyngor gymeradwyo'r newidiadau sydd yn y ddogfen hon.</p> <p>Er hwylustod, mae'r newidiadau wedi'u hamlygu mewn lliw ac sydd yn y meysydd perthnasol isod. Mae fersiwn lawn o'r ddogfen hon, gan gynnwys cylch gorchwyl cyflawn am bob un o'r pwyllgorau a restrir, ar gael yn nogfennau cyfarfod y Cyngor ar Ffynnon.</p> <p>Cytunwyd ar yr holl ddiwygiadau a grynhoir yn y ddogfen.</p> <p><u>Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Perygl</u></p> <p>Rhan o brofi'r trefniadau llywodraethu yw cais y Pwyllgor i'r Cyngor adolygu pa mor briodol yw cael Cadeirydd sy'n aelod o'r Cyngor.</p> <p>Gofynnwyd i'r swyddogion geisio cyngor cyfreithiol.</p>	NC
10.2	<p>Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol a'r Gofrestr Berygl</p> <p>Yn ei gyfarfod diwethaf yn Nhachwedd, cymeradwyodd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Perygl uno'r Gofrestr Berygl a'r Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol yn un ddogfen.</p> <p>Adolygwyd a diweddarwyd y meysydd am bob amcan bellach ac ystyrid fersiwn ddiwygiedig gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Perygl.</p> <p>Teimlai KE y byddai o werth cymryd yr adroddiad i bob cyfarfod. Dylai'r Cyngor fod yn ymwybodol o'r materion, hyd yn oed os yw hynny drwy eithriad. Cefnogwyd yr argymhelliad a nodwyd yr adroddiad.</p>	KB

11.	Adroddiadau ariannol
11.1	Adroddiad Ariannol y Flwyddyn hyd at 28 Chwefror 2018
	Rhoes yr adroddiad drosolwg uchel ei lefel ar incwm a gwariant hyd ddiwedd Chwefror 2018.
	Trafodwyd a nodwyd y sefyllfa ariannol.

12.2	Argymhellion																																													
	Mae angen cymeradwyaeth y Cyngor am benderfyniadau ar geisiadau loteri o £50,001 neu'n uwch. Cyflwynwyd cyfanswm o 10 argymhelliad.																																													
	<table border="1"> <thead> <tr> <th>Cyfeirnod</th> <th>Sefydliad</th> <th>Cais</th> <th>Argymhelliad</th> <th>Maes</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>20171827</td> <td>Theatr Ddawns Cascade</td> <td>£86,000</td> <td>£86,000</td> <td>Grant Cynhyrchu Mawr</td> </tr> <tr> <td>20171830</td> <td>Cynyrchiadau Leeway</td> <td>£95,384</td> <td>£95,384</td> <td>Grant Cynhyrchu Mawr</td> </tr> <tr> <td>20171837</td> <td>Opera Dinas Abertawe</td> <td>£75,000</td> <td>Gwrthod</td> <td>Grant Cynhyrchu Mawr</td> </tr> <tr> <td>20171860</td> <td>Theatr Canoe</td> <td>£59,000</td> <td>£59,000</td> <td>Grant Cynhyrchu Mawr</td> </tr> <tr> <td>20171862</td> <td>Cwmni Mega Cyf</td> <td>£55,000</td> <td>£55,000</td> <td>Grant Cynhyrchu Mawr</td> </tr> <tr> <td>20171864</td> <td>Ensemble Cymru</td> <td>£66,165</td> <td>Gohirio</td> <td>Grant Cynhyrchu Mawr</td> </tr> <tr> <td>20171867</td> <td>Bale Nimba</td> <td>£81,999</td> <td>Gwrthod</td> <td>Grant Cynhyrchu Mawr</td> </tr> <tr> <td>20171886</td> <td>Neuadd Dewi Sant</td> <td>£98,500</td> <td>£98,500</td> <td>Grant Cynhyrchu Mawr</td> </tr> </tbody> </table>	Cyfeirnod	Sefydliad	Cais	Argymhelliad	Maes	20171827	Theatr Ddawns Cascade	£86,000	£86,000	Grant Cynhyrchu Mawr	20171830	Cynyrchiadau Leeway	£95,384	£95,384	Grant Cynhyrchu Mawr	20171837	Opera Dinas Abertawe	£75,000	Gwrthod	Grant Cynhyrchu Mawr	20171860	Theatr Canoe	£59,000	£59,000	Grant Cynhyrchu Mawr	20171862	Cwmni Mega Cyf	£55,000	£55,000	Grant Cynhyrchu Mawr	20171864	Ensemble Cymru	£66,165	Gohirio	Grant Cynhyrchu Mawr	20171867	Bale Nimba	£81,999	Gwrthod	Grant Cynhyrchu Mawr	20171886	Neuadd Dewi Sant	£98,500	£98,500	Grant Cynhyrchu Mawr
Cyfeirnod	Sefydliad	Cais	Argymhelliad	Maes																																										
20171827	Theatr Ddawns Cascade	£86,000	£86,000	Grant Cynhyrchu Mawr																																										
20171830	Cynyrchiadau Leeway	£95,384	£95,384	Grant Cynhyrchu Mawr																																										
20171837	Opera Dinas Abertawe	£75,000	Gwrthod	Grant Cynhyrchu Mawr																																										
20171860	Theatr Canoe	£59,000	£59,000	Grant Cynhyrchu Mawr																																										
20171862	Cwmni Mega Cyf	£55,000	£55,000	Grant Cynhyrchu Mawr																																										
20171864	Ensemble Cymru	£66,165	Gohirio	Grant Cynhyrchu Mawr																																										
20171867	Bale Nimba	£81,999	Gwrthod	Grant Cynhyrchu Mawr																																										
20171886	Neuadd Dewi Sant	£98,500	£98,500	Grant Cynhyrchu Mawr																																										

20171810	Cwmni Theatr Taking Flight	£115,726	£115,726	Grant Cynhyrchu Mawr
20171804	OPRA Cymru Cyf	£92,000	£92,000	Grant Cynhyrchu Mawr
		£824,774	£601, 610	

Cymeradwywyd yr argymhellion.

12. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dydd Gwener 18 Mai 2018, Cyngor Celfyddydau Cymru, Caerdydd.

**Cyfarfod y Cyngor:
Iau/Gwener 15/16 Mawrth 2018:**

Crynodeb o weithredoedd a phenderfyniadau

Eitem agenda	Gweithred/penderfyniad	Cyfrifoldeb
1.	PG i ysgrifennu at LH i ddiolch iddi am ei chyfraniad at waith y Cyngor	PG
2.	Gwahodd aelodau'r Cyngor i weithdy rhyngwladol, a drefnir gan Gelfyddydau Rhyngwladol Cymru, ar 19 Ebrill 2018 yng Nghaerdydd	KB
5.2	Cynnull is-grŵp o'r Cyngor i adolygu targedau'r Cynllun Corfforaethol	KB
5.4	Dylai strategaeth gyfathrebu fewnol fod ar gael i'r staff ac yn cael eu cyhoeddi ar y fewnrwyd, Hwb	BM
10.1	Cyngor cyfreithiol i'w geisio ar statws Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Perygl	NC
10.2	Y Fframwaith Sicrwydd Corfforaethol i'w gynnwys, er gwybodaeth, ar bob agenda i'r Cyngor yn y dyfodol	KB